HUMPHREYS, JOHN (1767 - 1829), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a llenor

Enw: John Humphreys
Dyddiad geni: 1767
Dyddiad marw: 1829
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1767 ym Mhant-y-ddelw, Bodfari, ond symudodd ei deulu'n fuan i Benymynydd, Tremeirchion. O 1798 hyd 1802 bu yng Nghaer, yn arolygu'r argraffu Cymraeg yno dros Thomas Jones (1756 - 1820) a Thomas Charles. Aeth wedyn i fyw i Gil-deugoed, Tremeirchion, ac yna (am y rhan fwyaf o'i oes) i Groeswian, Caerwys, ac fel 'John Humphreys, Caerwys,' yr adnabyddir ef. Ordeiniwyd ef yn 1816. Tua diwedd ei oes, symudodd i Gil-llwyn, Bodfari, ac yno y bu farw yn Ebrill 1829 (9 Ebrill yn ôl *Seren Gomer* a *Goleuad Cymru*, 1829; 13 Ebrill yn ôl *Y Gwyddoniadur* - dywed *Seren Gomer* ei fod yn 95 oed, a phawb arall mai 62); claddwyd yng Nghaerwys. Nid oedd yn bregethwr poblogaidd, ond sgrifennai a chyhoeddai'n ddiwyd. Bu'n helpu Charles yn nechreuadau'r *Geiriadur Ysgrythyrol*; cyfieithodd gryn lawer, gan gynnwys '*Beibl Samuel Clarke* ' (Wrecsam, 1813); dug allan argraffiad newydd (1802) Cymraeg o lyfr Cole ar benarglwyddiaeth Duw; ac yr oedd yn ddarn-gyfrifol am y cofiant cyntaf (1820) i Thomas Jones. Yr oedd yn aelod o'r pwyllgor a drefnodd *Gyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd* (1823), ac efe a sgrifennodd y rhagair ar hanes y Methodistiaid Calfinaidd sydd ar flaen y *Gyffes* (*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 1923).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Yn yr ail arg. o'r *Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889â€“96) y ceir y wybodaeth lawnaf

gweler hefyd y fynegai i D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 106889973

Wikidata: Q20733459

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jenkins, R. T., (1953). HUMPHREYS, JOHN (1767 - 1829), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a llenor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUMP-JOH-1767

Copïo'r cliprwydd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government